CHWEFROR 11eg-15fed 2008

Casglu Ymatebion.
Ffilm: *Diwrnodau Olaf Ysgol Mynydd Cerrig.*
GIG a llawer mwy ...

Taith Gerdded o Benllyn i Ben-Llyn

CADWN EIN HYSGOLION A'N PENTREFI CYMRAEG



Mae Cyngor Sir Gwynedd wedi gwahodd trafodaeth gyhoeddus ac ymatebion o rwan tan fis Ebrill i'w strategaeth ad-drefnu ysgolion cynradd. Os gwireddir y strategaeth, gallai dros 20 o gymunedau pentrefol Cymraeg golli eu canolfannau addysg yn gyfangwbl gyda degau eto'n cael eu had-drefnu.

Mae Cymdeithas yr Iaith yn mynnu fod atebion yn cael eu llunio sy'n gweddu i anghenion pob cymuned unigol ac yn annog pawb i ddanfon ymateb at y Cyngor Sir.

Er mwyn hybu hyn, yr ydym yn cynnal Taith Gerdded trwy'r sir gan gludo Blwch Postio Mawr i gasglu ymatebion. Byddwn yn galw heibio ysgolion sy tan fygythiad ac yn rhannu ein syniadau a phrofiad o ardaloedd eraill gyda phobl y broydd hyn gan eu gwahodd i ymuno a ni am ran o'r Daith. Byddwn yn dangos y ffilm newydd "Diwrnodau Olaf Ysgol Mynyddcerrig".

TREFN TAITH O BENLLYN I BEN-LLYN

LLUN 11EG CHWEFROR – **12.30** – Ymgynnull wrth Ysgol y Parc gan ddechrau cerdded am **1pm**. **5pm** – Cyfarfod byr yng Nghapel Coffa Llyn Celyn lle bydd Heather Jones yn canu'r gan "Colli Iaith, Colli Cymdeithas" gan gyfeirio at Dryweryn. Byddwn yn ymdynghedu i frwydro i sicrhau nad ydym yn colli'n hysgolion. **7pm** – Cyngerdd "Cadwn ein Hysgolion" yn Ysgol y Parc gyda Heather Jones, Dan Puw a phlant yr ysgol.

MAWRTH 12ED CHWEFROR – **9am** Cloch Ysgol yn ailgychwyn y Daith Gerdded o Gwm Tryweryn i Danygrisiau ac ymlaen dros y mynydd i Groesor. **7pm** – Cyfarfod Cyhoeddus yn Ysgol Croesor.

MERCHER 13EG CHWEFROR – **9am** Cloch Ysgol yn cychwyn y Daith Gerdded o Ysgol Croesor. Trwy Dremadog gan alw am 3.30pm heibio Ysgol Llanystumdwy. Ymlaen at y Ffor. **7pm** – Noson "Cadwn ein Hysgolion" yn Neuadd Llanystumdwy

IAU 14EG CHWEFROR – **9am** Cloch Ysgol yn cychwyn y daith o'r Ffor. Ymlaen at Ysgol Llidiardau ym Men-Llyn gan alw heibio i Fryncroes ar y ffordd i gofio am y frwydr honno. **7pm** Cyfarfod "Cadwn ein Hysgolion" yn Ysgol Llidiardau – Siaradwr Gwadd : Myrddin ap Dafydd

Dyna ddiwedd y 75 milltir o Daith Gerdded o Benllyn i Ben-Llyn

GWENER 15ED CHWEFROR – *Cyflwyno'r ymatebion i'r Cyngor* **9am-10am** - Cyfarfodydd Cyhoeddus Cyfamserol "Cadwn ein Hysgolion" yn Ysgolion Bronyfoel a Baladeulyn gan ddangos y ffilm. **10.30pm** – Ymgyrchwyr a phlant a chefnogwyr yr ysgolion yn ymgasglu yng Ngroeslon ac yn cerdded at swyddfeydd y Cyngor Sir yng Nghaernarfon. **1pm** - Cyflwyno'r POST i'r Cyngor Sir a chan gan blant Bronyfoel. **8pm**- Gig yn Cofi Roc, Caernarfon gyda Bob Delyn, Mr Huw,Pet-Tree, DJ's etc

Am chwaneg o wybodaeth:
gogledd@cymdeithas.org
01286-662908 / 01559-384378

cymdeithas yr IAITH gymraeg